

## **CYFARWYDDIADAU I'R PERTHYNAS AGOSAF NEU'R YSGUTORION PAN FYDD RHODDWR YN MARW**

Yn y lle cyntaf, ffoniwch Brifysgol Keele, Ysgol Feddygaeth, Y Swyddfa Gymynroddion - **01782 734690** neu'r Cyfleuster Anatomeg **01782 733936** a **01782 734743**.

Wedyn bydd y Cydgysylltydd yn y swyddfa yn cysylltu â'r meddyg sy'n gyfrifol am yr ymadawedig a chyda'i gilydd byddant yn penderfynu a yw'r rhodd yn dderbyniol ai peidio. O fewn amser byr cewch wybod am y penderfyniad a pha gamau pellach y mae angen i chi eu cymryd. **(Nid oes unrhyw warant y byddai cymynrodd yn cael ei dderbyn.)**

Os ydych yn ffonio y tu allan i oriau swyddfa i roi gwybod i ni am y brofedigaeth, cysylltwch â C McGough a'i Fab, Trefnwyr Angladdau ar: **01782 834300**. Bydd eu gwasanaeth 24 awr yn rhoi cyngor a chymorth i chi.

### **OS YW'R RHODD YN CAEL EI DDERBYN**

- 1 Byddwch yn cael **Tystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth** gan y meddyg a oedd yn bresennol yn lleoliad y farwolaeth i chi fynd â hi at y Cofrestrydd.
- 2 Cewch eich cyngori i gofrestru'r farwolaeth gyda'r Cofrestrydd a dweud wrtho am ddymuniadau'r ymadawedig. Bydd yntau'n rhoi **Ffurflen Werdd (Tystysgrif Claddu neu Amlosgi)** i chi a **chopi o'r Dystysgrif Marwolaeth** (gofynnwch i'r Cofrestrydd am hon). Efallai y rhoddir ffurflen amlosgiad lleol i chi hefyd.
- 3 Yn ystod y cyfnod hwn bydd Prifysgol Keele yn anfon **Ffurflenni A1** atoch chi. Mae'r ffurflenni hyn yn caniatáu i chi awdurdodi bod y rhoddwr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer archwiliad anatomegol, ac maent hefyd yn gofyn i chi wneud penderfyniad ar y trefniadau amlosgi a derbyn y lludw yn y dyfodol.
- 4 Er mwyn i gorff y rhoddwr gael ei gasglu gan y trefnydd angladdau a'i symud i'r Cyfleuster Anatomeg, bydd angen i chi wneud yn siŵr fod y **Ffurflen Werdd, copi o'r Dystysgrif Marwolaeth**, (ffurflen amlosgi lleol hefyd os yw ar gael, a **Ffurflenni A1** os ydych wedi eu llenwi) ar gael i gyd-fynd â'r rhoddwr.

Os bu rhaid cadw'r ymadawedig ar safle Trefnwyr Angladdau cyn cael ei dderbyn, yr ystad a fydd yn ysgwyddo'r costau. Dim ond o'r amser y bydd ei Hymgymerwyr ei hun yn gofalu am yr ymadawedig y bydd yr Ysgol Feddygaeth yn cyfrannu at y costau.

**Bydd yr Ysgol Feddygaeth yn hapus i'ch tywys drwy'r holl drefniadau angenrheidiol ac ateb unrhyw ymholiadau a fydd gennych.**